CYNGOR CYMUNED Bryneglwys COMMUNITY COUNCIL

Canolfan Iâl (Yale Centre) Newsletter

February 2019

In our last newsletter we described our intentions to transform the old school into a community facility such as a village hall. Since then we have reviewed what the likely running costs will be and what the council can afford. Details of our financial planning can be found at **bryneglwyscc.wales** within the *Finances* section. This year your council will continue to support community plants and flowers, the Royal British Legion Poppy Appeal, and periodic donations and grants.

Keeping the old school in its present state has been costing in the region of £1,500 per year, so there is an urgent need to make progress with the project. Accordingly, this year, your council will:

- proceed with a very basic 'decor and Health & Safety' refurbishment of the old school so that it can be insured for safe use by the community,
- work towards permanently acquiring the building for the community as the Canolfan Iâl, and
- in 2020, consider terminating the project and declining the license to occupy if it has proved impossible to form a management group and/or move forward in a financially sustainable way.

Can you help? We are again appealing to members of the community to help us:

- refurbish the building to a limited extent (we will be contacting all those who last year kindly volunteered to help), and
- establish a management group that can work closely with us to help fund and realise the Canolfan Iâl project – in particular we are looking for people with a mixture of energy and enthusiasm, diverse experiences, a willingness to learn about running a charity and applying for grants, and a wish to be part of a close-knit team that strives to improve the facilities for our community.

Keeping in contact with your council

We are conscious of the need to keep you informed of progress with the project, so we will publish information by the following means:

- notices on the village noticeboards,
- periodic newsletters delivered to all households,
- notices on the official council website at **bryneglwyscc.wales**, and
- notices on the community website at **bryneglwys.co.uk**, and on Facebook.

Bryneglwys Community Council meets in the old school at 7.30pm on the third Thursday of each month. A public participation session is held at the start of each meeting to allow you to ask questions or express your views. We are also planning to organise quarterly 'drop-in' sessions, where you can meet with councillors on a one-to-one basis (once arranged, dates will be advertised on the main council website). Alternatively, please send comments or suggestions to **clerk@bryneglwyscc.wales** or to any of your councillors – contact details can be found at **bryneglwyscc.wales/councillors.html**

Some key facts...

How is the council funded? - Bryneglwys Community Council (BCC) is funded by a portion of Denbighshire's Council Tax called the precept, which is set each year by BCC. The current precept is **£39.55** per household (Band D).

What is the council's income? - As the current year's precept is relatively high, the council will only increase next year's precept by the rate of inflation, to **£40.55** (for Band D). There are currently 184 precept-paying households in Bryneglwys, so the council will receive **£7,461** to fund all its activities.

How much does it cost to run BCC? - The costs of running a community council have risen sharply recently, due in part to increasing legislation and governance standards. The normal running cost of the council is now in the region of **£8,000** each year, excluding elections and unexpected bills. Note that this does not include any of the costs associated with the Canolfan Iâl building or project.

What reserves do we have? - The council currently has reserves of around **£16,000**, which have been built up in recent years to help pay for costs associated with realising the Canolfan Iâl project. This year we are having to use some of those reserves to run council activities.

How much will it cost to run Canolfan Iâl? - There are a lot of variables and unknowns at the moment, but there are also figures from reports and similar projects throughout the UK to draw from. For example, a 2009 study showed that the average annual running cost of a village hall was just under £9,000. The council's own detailed projections suggest that Canolfan Iâl will probably cost in the region of **£10,000** each year (allowing for a part-time caretaker @10hrs per week, min. wage).

What about the cost to refurbish the building? - A community-run charity will need to seek sizeable funding to bring the old school up to modern standards of structural stability, decor, comfort and safety. If this happens, the building may attract sufficient hirers from Bryneglwys and elsewhere to create an income that could help offset its running costs. Without charity grants, it is not clear how a comprehensive refurbishment would be paid for, and without a regular income the community's precept would need to be raised substantially in order to cover the building's running costs.

What is the legal situation regarding Canolfan Iâl? - Bryneglwys School opened in 1873 following a gift of land to the churchwardens of Bryneglwys by Mr William Yale. In 1947 it was transferred to the Diocese of St Asaph, who in turn rented it to Denbighshire County Council. When the school closed in 2013, ownership should have reverted to the Yale family under the Reverter of Sites Act, but Mary Yale kindly offered it to the council as a community resource, providing the council cover any associated legal and taxation costs. As things stand, the transfer of ownership from the Diocese of St Asaph to the council (to hold in trust) is waiting for a management charity to be formed.

Bryneglwys Community Council works with residents and stakeholders to help make the village and its surrounding area a safe, attractive and peaceful place in which to live and work. It endeavours to act in ways that are transparent, sustainable, environmentally friendly and cost-effective.

CYNGOR CYMUNED Bryneglwys COMMUNITY COUNCIL

Cylchlythyr Canolfan Iâl

Chwefror 2019

Yn ein cylchlythyr diwethaf gwnaethom ddisgrifio ein bwriad i drawsnewid yr hen ysgol yn gyfleuster cymunedol, megis neuadd bentref. Ers hynny rydym wed ail edrych ar y costau tebygol, a'r hyn all y cyngor ei fforddio. Gallwch ddarllen ein cynllun ariannol y bryneglwyscc.wales yn y rhan Cyllid. Eleni bydd eich cyngor yn parhau i helpu i ddarparu planhigion a blodau cymunedol,yn cefnogi Apêl Pabi'r Lleng Brydeinig Frenhinol ac yn cyflwyno grantiau a rhoddion achlysurol.

Mae cadw'r ysgol fel y mae wedi costio £1,500 y flwyddyn, felly mae angen dirfawr symund ymlaen â'r prosiect. Yn unol â hyn, bydd eich cyngor yn:

- gwneud gwaith adnewyddu elfennol i'r hen ysgol o ran Iechyd a Diogelwch er mwyn sicrhau yswiriant i'r adeilad ac i'r gymuned ei ddefnyddio'n ddiogel,
- gweithio tuag at sicrhau'r adeilad i'r gymuned yn barhaol fel Canolfan Iâl, ac
- os na fu hi'n bosibl i ffurfio grŵp rheoli a symud ymlaen mewn ffordd sy'n gynaliadwy'n ariannol, ystyried dod â'r prosiect i ben a gwrthod y drwydded i feddiannu yn 2020.

Allwch chi helpu? Rydym yn apelio at aelodau'r gymuned eto i'n helpu ni i:

- adnewyddu'r adeilad i safon elfennol (byddwn yn cysylltu â'r bobl a wirfoddolodd yn garedig i gynorthwyo), a
- sefydlu grŵp rheoli all weithio'n agos â ni i helpu ariannu a gwireddu Canolfan Iâl - yn arbennig rydym am bobl sydd â brwdfrydedd ac egni, profiad amrywiol, parodrwydd i ddysgu am redeg elusen a gwneud ceisiadau am grantiau, ac sy'n dymuno bod yn rhan o dîm clos sy'n ymdrechu i wella'r cyfleusterau yn ein cymuned.

Cadw mewn cysylltiad â'ch cyngor

Rydym yn ymwybodol o'r angen i chi fod yn gwybod am gynnydd y prosiect, felly byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth yn y dulliau canlynol:

- hysbysiadau ar hysbysfyrddau'r pentref,
- dosbarthu cylchlythyrau rheolaidd i aelwydydd,
- hysbysiadau ar wefan swyddogol y cyngor sef **bryneglwyscc.wales**, a
- hysbysiadau ar y wefan gymunedol sef **bryneglwys.co.uk** ac ar Facebook.

Mae Cyngor Cymune Bryneglwys yn cyfarfod yn yr hen ysgol ar y trydydd dydd Iau yn fisol am 7.30pm. Cynhelir sesiwn cyfranogiad y cyhoedd ar ddechrau pob cyfarfod i'ch galluogi chi i ofyn cwestiynau, neu fynegi eich barn. Rydym hefyd yn bwriadu trefnu sesiynau 'galw heibio' chwarterol lle gallwch gyfarfod â'r cynghorwyr ar sail un i un. Unwaith i'r dyddiadau gael eu trefnu byddant yn cael eu hysbysebu ar brif wefan y cyngor. Fell arall, anfonwch eich sylwadau neu awgrymiadau at **clerk@bryneglwyscc.wales** neu at unrhyw un o'ch cynghorwyr - mae'r manylion cyswllt ar **bryneglwyscc.wales/councillors.html**

Rhai ffeithiau pwysig...

Sut mae'r cyngor yn cael ei ariannu? - Ariennir Cyngor Cymuned Bryneglwys (BCC) gan gyfran praesept Treth Cyngor Sir Dinbych sy'n cael ei osod yn flynyddol gan BCC. Y praesept presennol yw **£39.55** fesul aelwyd (Band D).

Beth yw incwm y cyngor? - Oherwydd i praesept y flwyddyn bresennol fod yn gymharol uchel, bydd praesept y flwyddyn nesaf yn cynyddu yn ôl y raddfa chwyddiant yn unig sef cynyddu i **£40.55** (Band D). Ar hyn o bryd mae 184 aelwyd sy'n talu praesept ym Mryneglwys, felly bydd y cyngor yn derbyn **£7,461** i ariannu ei holl weithgareddau.

Faint yw cost rhedeg BCC? - Mae cost rhedeg cyngor cymuned wedi cynyddu'n sylweddol yn ddiweddar, yn rhannol oherwydd deddfwriaeth a safonau llywodraethu. Cost arferol rhedeg y cyngor cymuned yw oddeutu **£8,000** y flwyddyn ac eithrio etholiadau a biliau annisgwyl. Sylwer nad yw hyn yn cynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â phrosiect ac adeilad Canolfan Iâl.

Faint o arian sydd gan y cyngor wrth gefn? - Ar hyn o bryd mae gan y cyngor o oddeutu **£16,000**, sydd wedi ei gronni yn y blynyddoedd diweddar i dalu am gostau sy'n gysylltiedig â gwireddu prosiect Canolfan Iâl. Eleni mae'n rhaid i ni ddefnyddio peth o'r arian wrth gefn hwn i gynnal rhai o weithgareddau'r cyngor.

Beth fydd cost rhedeg Canolfan Iâl? - Ar hyn o bryd, mae sawl agwedd anhysbys a newidyn, ond ceir hefyd ffigurau ac adroddiadau i'w hystyried am brosiectau tebyg ledled y DU. Er enghraifft, dangosodd astudiaeth yn 2009 mai cost rhedeg neuadd bentref ar gyfartaledd oedd ychydig llai na £9,000 y flwyddyn. Awgryma amcanestyniadau manwl y cyngor ei hun y bydd cost rhedeg Canolfan Iâl oddeutu **£10,000** y flwyddyn fwy na thebyg (gan ganiatáu am ofalwr rhan amser @10 awr yr wythnos, ar yr isafswm cyflog).

Beth am gost adnewyddu'r adeilad? - Bydd angen i'r elusen gymunedol chwilio am arian sylweddol i'r hen ysgol gyrraedd safonau sefydlogrwydd strwythurol cyfoes, ei pheintio, ac iddi fod yn gysurus a diogel. Os digwydda hyn, gallai'r adeilad ddenu digon o bobl o Fryneglwys a thu hwnt i hurio'r cyfleuster a chreu incwm allai gael ei osod yn erbyn costau rhedeg y cyfleuster. Heb grantiau elusennol, ni ellir gweld sut y byddai modd talu am adnewyddiad sylweddol, a heb incwm rheolaidd byddai angen codi praesept y gymuned yn sylweddol er mwyn talu am gostau cynnal yr adeilad.

Beth yw'r sefyllfa gyfreithiol ynghylch Canolfan Iâl? - Agorwyd Ysgol Bryneglwys yn 1873 ar ôl i wardeiniaid Eglwys Bryneglwys dderbyn rhodd o dir gan Mr William Yale. Yn 1947cafodd ei drosglwyddo i Esgobaeth Llanelwy, a roddodd ar osod i Gyngor Sir Ddinbych yn ddiweddarach. Pan gaewyd yr ysgol yn 2013, dylai'r berchnogaeth fod wedi dychwelyd i Deulu'r Yale yn ôl Deddf Atddychweliad Safleoedd, ond cynigiodd Mary Yale ef yn garedig i'r cyngor fel adnodd cymunedol, pe byddai'r cyngor yn talu am unrhyw gostau cyfreithiol a threth berthnasol. Fell y mae pethau, mae trosglwyddo'r berchnogaeth o Esgobaeth Llanelwy i'r cyngor (i'w ddal mewn ymddiriedolaeth) yn aros i elusen reolaeth gael ei ffurfio.

Mae Cyngor Cymuned Bryneglwys yn gweithio gyda thrigolion a rhanddeiliaid i helpu i wneud y pentref a'r ardal gyfagos yn ddiogel, yn ddeniadol ac yn lle heddychlon i fyw a gweithio yno. Mae'n ymdrechu i weithredu mewn dull sy'n dryloyw, yn gynaliadwy, yn gyfeillgar at yr amgylchedd ac yn gost effeithiol.